

## LEWIS, TIMOTHY RICHARDS (1841 - 1886), llawfeddyg, clefydegydd, ac un o arloeswyr meddygaeth drofannol

**Enw:** Timothy Richards Lewis  
**Dyddiad geni:** 1841  
**Dyddiad marw:** 1886  
**Priod:** Emily Frances Lewis (née Brown)  
**Rhiant:** Britania Lewis (née Richards)  
**Rhiant:** William Lewis  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** llawfeddyg, clefydegydd, ac un o arloeswyr meddygaeth drofannol  
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth  
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd yn yr Hafod, plwyf Llangan, Sir Gaerfyrddin, 31 Hydref 1841, yn blentyn hynaf William Lewis a Britania (Richards) ei wraig. Ym mhwlwyf Crinow, Sir Benfro, y magwyd ef, a chafodd ei addysg fore yn Ysgol Genedlaethol Arberth ac yn ysgol ramadeg Joseph a William Edward Morris yn yr un dref. Prentisiwyd ef yn 15 oed gyda fferyllyd yn Arberth, ond wedi pedair blynedd aeth i Lundain at fferyllyd yn Streatham. Oddi yno, ymunodd ag adran fferyllol yr ysbyty Ellmyng yn Dalston, lle y cafodd gyfle i ddysgu Almaeneg a dechrau ar astudiaethau meddygol. Mynychodd ddosbarthiadau Coleg y Brifysgol, 1863-6, a dyfarnwyd medal arian Fellowes iddo yn 1866. Graddiodd yn M.B. (gydag anrhydedd) a C.M. yn Aberdeen yn 1867. Y flwyddyn wedyn yr oedd ar ben rhestr efrydwyr Ysgol Feddygol y Fyddin yn Netley wrth ymaelodi ac ymadael. Penodwyd ef yn llawfeddyg cynorthwyl yn y fyddin. Yn 1868 penderfynwyd danfon Lewis ac efrydydd arall i astudio damcaniaethau gwyddonwyr yr Almaen ar achosion colera ac i'w gosod a brawf yn yr India. Felly yr aeth i'r India yn Ionawr 1869, ar ôl treulio rhai misoedd yn yr Almaen. Am ryw bum mlynedd bu'n astudio problemau ynglŷn â cholera. Yn 1874 gwnaethpwyd ef yn gynorthwyr arbennig i'r Comisiynydd Iechydol, a helaelwyd maes ei ymchwil i gynnwys y gwahanglwyr a clefydau dwyreiniol eraill. Yn 1870 darganfu Lewis drychflyn a alwyd ganddo yn 'Filaria sanguinis hominis,' a elwir yn awr yn 'Wuchereria bancrofti.' Yn 1877, darganfu drychflyn arall yng ngwaed llygod mawr, ac erys ei enw ar hwn, sef 'Trypanosoma lewisi.' Gadawodd yr India yn Ionawr 1883 i gymryd swydd athro cynorthwylol mewn clefydeg yn Netley, ond cadwodd mewn cyswllt agos â Llywodraeth yr India, gan ei chynrychioli mewn cynadleddar cydwladol ar broblemau iechydol. Yn 1884-5 galwyd arno eto i ailaefal yn ei ymchwil i achosion colera, ac i astudio damcaniaeth Robert Koch a ddarganfuasai'r 'comma-bacillus.' Ef oedd ysgrifennyd y pwyllgor gwyddonwyr a ddeuwiswyd i glorianu'r ddamcaniaeth yn 1885. Cafwyd fod pwysau'r dystiolaeth ar y pryd yn erbyn damcaniaeth Koch, ond parhaodd Lewis i astudio'r problem. Ym mis Ebrill 1886, cymeradwywyd ei enw i gael ei ethol yn F.R.S., ond cyn yr etholiad yr oedd ef wedi syrrhio'n ysglyfaeth i un o'r meicrabau y bu'n eu holrhain mor ddiwyd. Bu farw 7 Mai 1886, a chladdwyd ef yn Netley. Erys ei adroddiadau yn glasuron mewn bacterioleg. Cyhoeddwyd cyfrol goffa (*In Memoriam*) iddo yn 1888.

Y mae ei lawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaethol (NLW MS 14381A , NLW MS 14382A , NLW MS 14383A , NLW MS 14384A , NLW MS 14385A , NLW MS 14386C , NLW MS 14387B , NLW MS 14388B , NLW MS 14389B , NLW MS 14390E , NLW MS 14391E , NLW MS 14392E , NLW MS 14393B , NLW MS 14394B , NLW MS 14395E , NLW MS 14396E , NLW MS 14397C , NLW MS 14398E , NLW MS 14399C , NLW MS 14400B , NLW MS 14401B ).

### Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

### Ffynonellau

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, iii, 65-8

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 72159328

Wikidata: Q3529077

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, E. D., (1953). LEWIS, TIMOTHY RICHARDS (1841 - 1886), llawfeddyg, clefydegydd, ac un o arloeswyr meddygaeth drafannol. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-RIC-1841>

Copiar i'r

clippwyd

Preifatrwydd a Chwics  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



National  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government